Y Gwir Anrh Alun Michael YH OStJ FRSA

Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru
Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru

4 Hydref 2022

YMATEB COMISIYNYDD YR HEDDLU A THROSEDDU I ADRODDIAD SBOTOLAU AROLYGIAETH CWNSTABLIAETH A GWASANAETHAU TÂN AC ACHUB EI FAWRHYDI: YMATEB YR HEDDLU I FYRGLERIAETH, LLADRAD A THROSEDDAU MEDDIANGAR ERAILL: DOD O HYD I AMSER AM DROSEDDAU

Mae'r adroddiad hwn yn ystyried sut mae heddluoedd yn ymateb i Droseddau Meddiangar Difrifol, sy'n cynnwys troseddau fel byrgleriaeth a lladrad a dwyn. Mae'r troseddau hyn yn cael effaith ddinistriol ac ni ddylid tanamcangyfrif maint y niwed a achosir. Rwy'n falch o nodi tystiolaeth bod arferion arloesol yn cael eu rhoi ar waith i fynd i'r afael â lleihau ac atal troseddau. Fodd bynnag, rwy'n cytuno â sylwadau cloi'r adroddiad fod hanfodion gwaith ymchwilio a gwasanaeth i ddioddefwyr o ansawdd uchel yn hanfodol.

Fel Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, mae'r blaenoriaethau yn fy Nghynllun Heddlu a Throseddu yn adlewyrchu'r prif themâu a amlinellir yn yr adroddiad hwn – ffocws ar ostwng troseddu a gwasanaeth i ddioddefwyr. Felly, rwy'n cefnogi'r ddau argymhelliad a wnaed i gysoni'n well â'r canllawiau cenedlaethol a gwella safonau ymchwiliol a goruchwyliaeth. Yn arolygiad PEEL 2021/22 Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi, aseswyd bod gan Heddlu De Cymru gryfder penodol mewn atal troseddau ac ymchwilio iddynt. Byddaf yn sicrhau y caiff perfformiad parhaus yn y maes hwn ei oruchwylio ac yn craffu mewn perthynas ag ymroddiad tuag at y gwasanaeth i ddioddefwyr a dwyn troseddwyr gerbron llys barn. Mae'n bwysig bod pobl yn teimlo'n ddiogel yn eu cartrefi a'u cymunedau a'u bod yn ymddiried mewn plismona a bod ganddynt hyder ynddo.

At hynny, rwy'n ymrwymedig i weithio tuag at ddull gweithredu system gyfan, ochr yn ochr â'r Prif Gwnstabl a'n partneriaid lleol a rhanbarthol. Drwy ein gwaith i fynd i'r afael â gwraidd achosion troseddau a ffactorau gwaethygol aildroseddu yn ein

Tŷ Morgannwg, Pencadlys yr Heddlu
Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 3SU
ff: 01656 869366
e: commissioner@heddlu-de-cymru.pnn.police.uk
g: southwalescommissioner.org.uk

Tŷ Morgannwg, Police Headquarters,
Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 3SU
t: 01656 869366
e: commissioner@south-wales.pnn.police.uk
w:southwalescommissioner.org.uk

Mae'r Comisiynydd a'i dîm yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg
The Commissioner and his team welcomes correspondence in Welsh or English

Y Gwir Anrh Alun Michael YH OStJ FRSA

Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru
Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru

cymunedau gwelwyd cryn fuddsoddiad mewn adnoddau a chanlyniadau amlwg o ran gostwng troseddu ac atal troseddau.

Tŷ Morgannwg, Pencadlys yr Heddlu
Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 3SU
ff: 01656 869366
e: commissioner@heddlu-de-cymru.pnn.police.uk
g: southwalescommissioner.org.uk

Tŷ Morgannwg, Police Headquarters,
Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 3SU
t: 01656 869366
e: commissioner@south-wales.pnn.police.uk
w:southwalescommissioner.org.uk

Mae'r Comisiynydd a'i dîm yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg
The Commissioner and his team welcomes correspondence in Welsh or English

Y Gwir Anrh Alun Michael YH OStJ FRSA

Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru
Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru

Mae'r Prif Gwnstabl yn crynhoi ei farn am yr adroddiad fel a ganlyn:

"Mae Heddlu De Cymru yn cydnabod y canfyddiadau a'r argymhellion a wnaed yn yr adroddiad ac mae'n gwbl ymrwymedig i wella'i ymateb i fyrgleriaeth, lladrad a dwyn. Mae'r heddlu newydd benodi arweinydd strategol penodedig ar gyfer Troseddau Meddiangar Difrifol a fydd yn sicrhau ffocws a chraffu parhaus yn y maes pwysig hwn ac yn goruchwylio'r gwaith o roi'r argymhellion ar waith yn lleol. Mae'r ffocws ychwanegol hwn yn ceisio adeiladu ar sylfeini ein ffrwd waith Synergedd Rhaglen, gyda'r nod o wella ein gallu ymchwiliol a gwella ein canlyniadau ymchwiliol. Teimlwn fod Heddlu De Cymru eisoes wedi dangos hyn gan fod ganddo'r gyfradd canlyniadau uchaf yn genedlaethol ar gyfer byrgleriaethau preswyl. Mae ein ffocws bellach yn troi at ddysgu o'r adroddiad a defnyddio'i gynnwys i barhau i wella'r gwasanaeth i'n cymunedau ym meysydd eraill troseddau meddiangar."

Rwy'n ddiolchgar i'r Prif Gwnstabl am ei sylwadau a'i ymrwymiad i weithio tuag at gyflawni'r argymhellion yn yr adroddiad. Mae'n amlwg bod unrhyw argymhellion sy'n cynnwys gwella prosesau ar gyfer safonau ymchwilio a gwasanaeth i ddioddefwyr Troseddau Meddiangar Difrifol yn angenrheidiol ac i'w croesawu. Byddaf yn defnyddio fy Mwrdd Craffu ac Atebolrwydd i olrhain cynnydd ar y mater hwn.

Y Gwir Anrh Alun Michael
Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru

Tŷ Morgannwg, Pencadlys yr Heddlu
Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 3SU
ff: 01656 869366
e: commissioner@heddlu-de-cymru.pnn.police.uk
g: southwalescommissioner.org.uk

Tŷ Morgannwg, Police Headquarters,
Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 3SU
t: 01656 869366
e: commissioner@south-wales.pnn.police.uk
w:southwalescommissioner.org.uk

Mae'r Comisiynydd a'i dîm yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg
The Commissioner and his team welcomes correspondence in Welsh or English